Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Cod Ymarfer ar gyfer rhoi cyngor archaeolegol

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Sefydlwyd y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru ynghanol y 1970au. Maent yn Gwmnïau Cyfyngedig annibynnol ac yn Elusennau Cofrestredig sy'n cynnal staff archaeolegol proffesiynol ac yn darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol ar yr amgylchedd hanesyddol yn eu priod ranbarthau.

Sefydliadau yw'r Ymddiriedolaethau sydd wedi cofrestru â'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr (CIfA). Mae'r prif aelodau staff a phenaethiaid y timau yn Aelodau o CIfA ac felly yn gorfod cydymffurfio â'i God, ei safonau a'i ganllawiau.[1] Disgwylir i aelodau CIfA ddilyn yr egwyddorion a nodir yng nghanllawiau CIfA ble bynnag maent yn gweithio ac ym mha rinwedd bynnag, yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol a gofynion lleol.

Mae'r Ymddiriedolaethau yn aelodau o Gymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: y DU a Chymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol: Cymru.

Mae gwaith yr Ymddiriedolaethau yn cynnwys cadw Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer eu priod ranbarthau,[2] rhoi cyngor archaeolegol penodol a chyngor arall ar yr amgylchedd hanesyddol, a rhoi cynlluniau ar waith i leddfu effaith datblygiad ar olion archaeolegol.

Gall amgylchiadau godi pan fydd Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru yn rhoi cyngor ar faterion archaeolegol a materion eraill ar yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r broses gynllunio (swyddogaeth Cynghorydd) ac yn cyflawni gwaith sy'n deillio o'r cyngor hwnnw (swyddogaeth Ymarferydd). Darperir cyllid ar gyfer gwaith y Cynghorydd drwy grantiau Llywodraeth Cymru a weinyddir drwy Cadw a chymorth

---

[1] http://www.archaeologists.net/codes/cifa

[2] Cedwir y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol mewn pedair ymddiriedolaeth elusennol ar wahân a grëwyd gan yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol briodol yng Nghymru yn 2008.

gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru yn cydweithio er mwyn sicrhau y rhoddir cyngor ar faterion amgylchedd hanesyddol gan bobl gymwys.

Polisïau Cynllunio Amgylchedd Hanesyddol Cymru

Nodir Polisïau Cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn *Polisi Cynllunio Cymru*[3] a chyngor cysylltiedig.[4]

Diben y Cod Ymarfer hwn

Mae'r Cod Ymarfer hwn, a luniwyd ar gais Llywodraeth Cymru, yn nodi'r gweithdrefnau y mae'r pedair Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru wedi eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod gwahaniad clir rhwng eu rolau Cynghorydd ac Ymarferydd fel na cheir gwrthdaro buddiannau. Mae'n ategu, yn hytrach na disodli, codau ymarfer eraill, codau ymddygiad, a safonau a chanllawiau a ddefnyddir wrth ymarfer archaeoleg yn broffesiynol.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r cyngor a roddir ar wahân ar yr amgylchedd hanesyddol gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, yn enwedig rhoi cyngor ar reoli datblygiadau a rheoli gwaith yn y broses gynllunio. Mae hefyd yn gymwys lle y rhoddir cyngor tebyg mewn perthynas â datblygiadau nas cwmpesir gan y broses honno, ond a allai effeithio ar fuddiannau amgylchedd hanesyddol.[5]

Egwyddorion y Cod Ymarfer i Gynghorwyr

---

[3] *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 9 – Tachwedd 2016) 6.3.10 'Yr ymddiriedolaethau archaeolegol yng Nghymru sy'n rheoli ac yn cynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau). Gall adrannau curadurol yr Ymddiriedolaethau hefyd roi cyngor archaeolegol i'r awdurdodau cynllunio lleol er mwyn gallu ystyried yn briodol beth yw effaith cynnig ar yr adnodd archaeolegol, gan gynnwys cyngor ar gynlluniau i leddfu unrhyw effeithiau negyddol. Dylid cysylltu â hwy, fel y bo'n briodol, wrth arfer swyddogaethau llunio cynlluniau a rheoli datblygu.'

[4] Yn enwedig *Cylchlythyrau 60/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg a 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth* ac unrhyw Nodyn Cyngor Technegol newydd.

[5] Er enghraifft, gwaith a wneir ar Ystadau'r Goron, neu o dan Geisiadau Cyfadran, neu o dan gyfundrefnau Morol neu Amaeth-amgylcheddol.

Yr egwyddorion a'r arferion a fabwysiedir gan Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru ar gyfer rhoi cyngor yw'r rhai sy'n ofynnol gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr *Standard and guidance for archaeological advice by historic environment services*[6]. Noda'r safon:

> ‘Archaeological advice on the historic environment must aim to benefit the public both now and in the future, through management and advancement of understanding. It will contribute to the achievement of sustainable development and the realisation of social, environmental or economic benefits.
>
> Advice must be clear, consistent, compliant, reasonable, timely, informed and impartial, and should be proportionate to a reasoned and clearly-documented assessment of known or potential significance.
>
> Advice must be provided by suitably qualified, skilled and competent advisors and based on an up-to-date and publicly-accessible information base maintained to nationally-agreed standards.’

Gweithredu'r Cod Ymarfer hwn

Caiff y Cod Ymarfer hwn ei weithredu gan y pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol yng Nghymru a'i adolygu o bryd i'w gilydd gyda Cadw.

Dylai unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r cod hwn gael eu tynnu at sylw'r Ymddiriedolaeth briodol/Ymddiriedolaethau priodol, ac os oes angen at Cadw.

Dylai unrhyw honiad ynghylch camymddwyn proffesiynol a/neu fethiant i fodloni Cod CIfA, safonau neu ganllawiau gael eu tynnu at sylw'r Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr.

---

[6] http://www.archaeologists.net/sites/default/files/CIfAS&GArchadvice_2.pdf

Cod Ymarfer[7]

1. Caiff swyddogaethau Cynghorydd ac Ymarferydd eu cyflawni'n annibynnol gan adrannau neu dimau a reolir ar wahân o fewn pob Ymddiriedolaeth.
2. Bydd y Cynghorwyr ym mhob Ymddiriedolaeth yn rhoi cyngor hyddysg, diduedd, annibynnol a phroffesiynol ar y goblygiadau ac effaith datblygiadau arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd yr holl gyngor yn cydymffurfio â pholisi, cyngor a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.
3. Caiff yr holl wybodaeth gyfrinachol neu freintiedig a ddarperir i neu gan y Cynghorwyr i'r Ymddiriedolaeth ei rheoli'n ddiogel er mwyn cynnal cyfrinachedd.
4. Ar gyfer gwaith rheoli datblygiadau a chynghori ar yr amgylchedd hanesyddol, bydd y Cynghorwyr ym mhob Ymddiriedolaeth yn trin swyddogaethau Ymarferydd o fewn yr Ymddiriedolaeth yn yr un modd â'r holl ymarferwyr eraill. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chyfnewid mewn ffordd ffafraethol o fewn yr Ymddiriedolaethau.
5. Bydd y Cynghorwyr ym mhob Ymddiriedolaeth yn cyfeirio unrhyw un sy'n gwahodd tendrau am waith archaeolegol at ffynonellau gwybodaeth annibynnol priodol i'w galluogi i ddethol ymarferwyr archaeolegol cymwys.
6. Mae'r Cynghorwyr ym mhob Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd y rhai sy'n bwriadu comisiynu gwaith archaeolegol yn awyddus efallai i benodi ymgynghorydd archaeolegol annibynnol i baratoi neu asesu cynllun ymchwilio ysgrifenedig, dylunio prosiect neu fanyleb gwaith y bwriedir iddynt fodloni briff archaeolegol, i fonitro cynnydd y gwaith, neu i roi cyngor ar argymhellion ar gyfer camau gweithredu pellach.
7. Bydd y Cynghorwyr ym mhob Ymddiriedolaeth yn darparu asesiad proffesiynol diduedd ac yn cymeradwyo briffiau archaeolegol, dyluniadau prosiect, cynlluniau ymchwilio ysgrifenedig, a'r gwaith a'r adroddiadau archaeolegol dilynol, ni waeth beth fo'r trefniadau cyflawni cytundebol.

[7] Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer hwn am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 1997; cafodd ei ddiweddaru a'i ddiwygio ddiwethaf yn 2016.

Rhestr Termau a'r diffiniad o dermau[8]

Cynghorydd Archaeolegol

Unigolyn neu sefydliad â chymwysterau a phrofiad priodol sy'n rhoi cyngor archaeolegol a gwybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol tirol a morol a ddynodwyd ac nas dynodwyd. Gall cynghorydd fod yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol, corff neu reoleiddiwr treftadaeth genedlaethol, ymddiriedolaeth elusennol, parc cenedlaethol neu gorff cyhoeddus arall neu gall fod wedi'i gontractio i gorff o'r fath.

ALGAO (Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol)

Mae'r Gymdeithas yn darparu fforwm sy'n cynrychioli archaeolegwyr sy'n gweithio i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol ledled y DU. Cymdeithasau cenedlaethol cydrannol ALGAO yw ALGAO: Lloegr, ALGAO: Yr Alban ac ALGAO: Cymru. Mae ei aelodau yn uwch archaeolegwyr sydd wedi'u cyflogi neu eu contractio i roi cyngor ar gadwraeth a rheolaeth archaeolegol.

Asesiad Archaeolegol

Asesiad o'r adnodd archaeolegol hysbys neu bosibl o fewn ardal neu safle penodol (tirol, rhynglanwol neu forol), sy'n cynnwys coladu gwybodaeth ysgrifenedig a graffig sy'n bodoli eisoes, er mwyn nodi cymeriad tebygol, maint ac ansawdd cymharol yr adnodd gwirioneddol neu bosibl**.**

Archaeolegol

Unrhyw beth sy'n ymwneud â'r gwaith o ymchwilio i olion materol gweithgarwch dynol yn y gorffennol.

Cyngor archaeolegol

Cyngor arbenigol sy'n seiliedig ar wybodaeth archaeolegol ac sy'n anelu at wella dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol a'r ffordd y caiff ei reoli. Mae cyngor archaeolegol yn seiliedig ar sail wybodaeth gyfredol a gwerthfawrogiad o arwyddocâd.

Ymgynghorydd archaeolegol

Sefydliad neu unigolyn sy'n darparu dadansoddiadau a chyngor archaeolegol arbenigol. Nid yw'r term yma yn gymwys i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ymchwilio yn y maes a gwasanaethau lledaenu.

Ymarferydd archaeolegol

Sefydliad neu unigolyn sy'n gwneud gwaith ymchwiliol, dadansoddol neu arbenigol wrth y ddesg neu yn y maes ar safleoedd archaeolegol neu adeiladau hanesyddol fel rhan o'r broses ddatblygu, ac a fydd yn cyflwyno adroddiadau a chyhoeddiadau perthnasol ar y gwaith hwnnw.

Briff

Dogfen a gaiff ei llunio gan gynghorydd ar ran awdurdod cynllunio lleol neu gorff arall sy'n gwneud penderfyniadau sy'n nodi'r gofynion cyffredinol ar gyfer gwaith sydd i'w wneud er mwyn ategu cais cynllunio.

CIfA (Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr)

---

[8] Y diffiniadau yw'r rhai a ddiffinnir gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr, neu rai sydd wedi'u seilio'n agos arnynt, yn eu Safonau a'u Canllawiau cyhoeddedig neu mewn atodiadau i'r Safonau a'r Canllawiau hynny.

Mae Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) yn hyrwyddo arfer archaeoleg a disgyblaethau cysylltiedig drwy hyrwyddo safonau proffesiynol a moeseg ar gyfer diogelu, rheoli, deall a hyrwyddo mwynhad o dreftadaeth.

Cymwys

Gall unigolion cymwys gyflawni'r gweithgareddau o fewn galwedigaeth neu swyddogaeth i'r safonau a ddisgwylir ym maes cyflogaeth. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) yn asesu cymhwysedd technegol a moesegol o fewn ei weithdrefn cais am aelodaeth, gan bennu gradd aelodaeth yn unol â chymhwysedd galwedigaethol yr unigolyn. Asesir cymhwysedd sefydliadau archaeolegol drwy Gynllun Sefydliadau Cofrestredig CIfA.

Gwerthuso

Rhaglen gyfyngedig o waith maes anymwthiol a/neu ymwthiol sy'n nodi presenoldeb neu absenoldeb nodweddion, strwythurau, dyddodion, arteffactau neu ecoffactau archaeolegol o fewn ardal neu safle penodol ac sy'n diffinio, os ydynt yn bresennol, eu cymeriad a'u maint a'u hansawdd cymharol. Mae'n ei gwneud yn bosibl i'w harwyddocâd gael ei asesu mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel y bo'n briodol.

Cofnod Amgylchedd Hanesyddol

Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yw gwasanaethau gwybodaeth a ddylai ddarparu mynediad at adnoddau cynhwysfawr a dynamig sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol ardal ddaearyddol ddiffiniedig sydd er budd y cyhoedd ac i'w defnyddio ganddo. Fel arfer, maent yn cynnwys cronfeydd data sydd wedi'u cysylltu â system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) a deunydd cyfeirio cysylltiedig, ynghyd ag adnodd staffio penodol. Caiff Cofnod Amgylchedd Hanesyddol effeithiol ei gynnal a'i gadw a'i ddiweddaru'n rheolaidd a bydd yn hygyrch i'r cyhoedd.

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol

Gwasanaeth a ddarperir gan awdurdod lleol, parc cenedlaethol, ymddiriedolaeth elusennol neu gorff cyhoeddus nid er elw arall, neu a gomisiynir gan gorff o'r fath, a all nodi, cofnodi, diogelu, cyflwyno a dehongli'r amgylchedd hanesyddol ac asedau treftadaeth ardal ddaearyddol benodol.

Diduedd

Bod yn annibynnol ar unrhyw fuddiant cytundebol, masnachol neu unrhyw fuddiant croes posibl arall.

Dyluniad prosiect

Datganiad ysgrifenedig ar amcanion prosiect, gan gynnwys dulliau, amserlen ac adnoddau. Mae'r rhain yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer cyflawni pob cam o'r prosiect nes iddo gael ei gwblhau ac fe'u nodir yn ddigon manwl fel y gellir eu mesur, eu gweithredu a'u monitro.

Manyleb

Datganiad dull manwl a gaiff ei lunio gan ymgeisydd mewn ymateb i frîff a ddarperir gan awdurdod cynllunio lleol. Ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol, y fanyleb (a elwir weithiau yn gynllun ymchwilio ysgrifenedig), fydd cwmpas y gwaith y caiff amodau cynllunio eu cyflawni yn ei erbyn.

Deddfwriaeth Gefndir, Rheoliadau, a Chodau a Safonau Ymarfer Proffesiynol

Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol (1979)

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016)

Archaeological Investigations Code of Practice for Mineral Operators (Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain 1991)

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, 2016)

Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg (Cylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig)

Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth (Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig)

Nodyn Cyngor Technegol 24

Cynllunio a'r amgylchedd hanesyddol: cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig)

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Cylchlythyr 11/99 y Swyddfa Gymreig)

Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001)

Model Briefs and Specifications for Archaeological Assessments and Field Evaluations (Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Sirol 1993)

Standard and Guidance for archaeological advice by historic environment services (CIfA 2014)

Standard and Guidance for the creation, compilation, transfer and deposition of archaeological archives (CIfA 2014)

Standard and Guidance for the archaeological investigation and recording of standing buildings or structures (CIfA 2014)

Standard and Guidance for the collection, documentation, conservation and research of archaeological materials (CIfA 2014)

Standard and Guidance for commissioning work on, or providing consultancy advice on, archaeology and the historic environment (CIfA 2014)

Standard and Guidance for historic environment desk-based assessment (CIfA 2014)

Standard and Guidance for archaeological excavation (CIfA 2014)

Standard and Guidance for archaeological field evaluation (CIfA 2014)

Standard and Guidance for archaeological geophysical survey (CIfA 2014)

Standard and Guidance for an archaeological watching brief (CIfA 2014)

Standard and Guidance for the stewardship for the Historic Environment (CIfA 2014)

Standard and Guidance for forensic archaeologists (CIfA 2014)

Standard and Guidance for nautical archaeological recording and reconstruction (CIfA 2014)

The Chartered Institute for Archaeologists Code of Conduct (2014)

Archaeologists Code of Approved Practice for the Regulation of Contractual Arrangements in Field Archaeology (Sefydliad Archaeolegwyr Maes 1999)

The Treasure Act 1996: Code of Practice (England and Wales) (Adran Treftadaeth Genedlaethol 1997)

The Welsh Archaeological Trusts Regional Historic Environment Records Access and Charging Policy (2008)

Canllawiau CBHC ar gyfer archifau archaeolegol digidol (2015)

Defnyddio amodau mewn caniatâd cynllunio (Cylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig)

Manylion Cyswllt Sefydliadau Allweddol

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

41 Stryd Lydan
Y Trallwng
Powys
SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670
Ffacs: 01938 552179

Gwefan: http://www.cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

The Corner House
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE

Ffôn: 01558 823121

Gwefan:
http://www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent

Tŷ Heathfield
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL

Ffôn: 01792 655208
Ffacs: 01792 474469

Gwefan: http://www.ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT

Ffôn: 01248 352535
Ffacs: 01248 370925

Gwefan: http://heneb.co.uk

Cadw

Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336000
Ffacs: 01443 336001

Gwefan: http://cadw.cymru.gov.uk

Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr

Miller Building
University of Reading
Reading
RG6 6AB

Ffôn: 0118 378 6446
Ffacs: 0118 378 6448

Gwefan: http://www.archaeologists.net

Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol

Ffôn: 01223 728140

Gwefan: http://www.algao.org.uk

Atodiad

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent wedi'i threfnu i sicrhau bod darpariaeth ei rôl ymgynghorol ar wahân i'w swyddogaethau eraill (gweler y Siart trefniadaeth isod). Mae'r data ffisegol a'r data digidol, fel ei gilydd, yn cael eu storio ar wahân, a rheolir a chyfyngir ar bwy sy'n eu cyrchu.

Mae'r holl staff wedi cael cyngor ysgrifenedig penodol yn ein llawlyfr i gyflogeion ynghylch sut i osgoi gwrthdaro buddiannau, ac yn arbennig yng nghyd-destun sefydliad sy'n darparu gwasanaethau gofyniad (‘curadurol’ ymgynghorol) a chyflenwi (‘contractiol’ ar gyfer ymarferwyr).

Mae'r ymddiriedolaeth wedi sefydlu polisïau penodol i helpu i gefnogi'r gwaith hwn o wahanu swyddogaethau, a gellir gweld y rhain ar gais neu eu cyrchu ar ein gwefan:

Polisi Monitro Gwaith Cynllunio Archaeolegol GGAT

Polisi Gwrthlwgrwobrwyo a Gwrthlygredd GGAT

Polisi a Gweithdrefn Gwyno GGAT

Polisi Chwythu'r Chwiban GGAT

Polisi ar Ymgynghorwyr GGAT sy'n argymell addasrwydd Ymgynghorwyr ac Ymarferwyr i ymgymryd â gwaith archaeolegol

STRWYTHUR GWEITHIO YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL MORGANNWG-GWENT CYF 2017